

No.

PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Chwefror, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorydd S. Sivagnanam (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, G. John, M.J.G. Morgan, A.R. Robertson, L.O. Rowlands a S.T. Wiliam

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), S. Griffiths and E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio)

854 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

855 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd V.J. Bailey.

856 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

857 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

858 LLINIARU LLIFOGYDD -

(i) Cynlluniau Lliniaru Llifogydd ar gyfer Bro Morgannwg – Tim England, Cyfoeth Naturiol Cymru:

Croesawodd y Pwyllgor Tim England a Tim Marshall o Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a oedd wedi cael gwahoddiad i roi trosolwg o gynlluniau lliniaru llifogydd sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd ledled Bro Morgannwg.

Dechreuodd Tim Marshall drwy roi trosolwg o rôl a phwerau CNC mewn perthynas â rheoli risg llifogydd, felly fel sefydliad roedd gan CNC ddyletswyddau statudol a phwerau caniatol. Roedd y rhain yn cynnwys pwerau gweithredol i reoli risg llifogydd o'r prif afonydd a'r môr, ac i ymdrin ag erydu arfordirol. Roedd gan CNC hefyd oruchwyliaeth gyffredinol dros yr holl faterion sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys rheoli risg, yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys pwerau rheoli a chynnal a chadw ar y prif afonydd, ac adeiladu a chynnal a chadw asedau rheoli risg llifogydd.

O ran y llifogydd a gafwyd ar 23 Rhagfyr 2020, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 1 siawns mewn 20 i hynny ddigwydd bob blwyddyn. O ganlyniad i'r digwyddiad, roedd dwr wedi mynd i mewn i 100 o gartrefi, ac wedi effeithio ar lawer o gartrefi eraill yn ardal Dinas Powys. Roedd tai allan a gerddi wrth afonydd Tregatwg ac Eastbrook o dan ddŵr mewn sawl lleoliad lle'r oedd yr afonydd wedi bwrw eu glannau.

O ganlyniad i ganfyddiadau adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 ar gyfer Dinas Powys, gwnaed sawl argymhelliad, gan gynnwys yr angen i asesu opsiynau i leihau risg llifogydd a hefyd i asesu cyfundrefn cynnal a chadw ar gyfer y cwrs dŵr. Yn nhymor yr haf 2020, nodwyd bod CNC wedi cyhoeddi achos busnes amlinellol a gefnogai gynlluniau i ddarparu cronfa ddŵr storio ar-lein ar gyfer dŵr llifogydd ymhellach i fyny'r afon o'r pentref. Fodd bynnag, roedd cryn wrthwynebiad i'r opsiwn hwnnw o du'r cyhoedd ar sail amgylcheddol, ac ni chafodd ei ddatblygu ymhellach. O ganlyniad i hynny, ar ôl i'r astudiaeth ddod i ben, ac ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol, penderfynwyd nad oedd ateb ymarferol a allai amddiffyn y gymuned gyfan rhag llifogydd.

Ers digwyddiad Rhagfyr 2020, roedd CNC wedi bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith parhaus yn Ninas Powys. Roedd hyn yn cynnwys:

- Cynnal a chadw afonydd Tregatwg ac Eastbrook yn rheolaidd.
- Penodi'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i ddarparu gwasanaethau achub.
- Cydweithio rhwng CNC, y Cyngor, y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol a Dŵr Cymru i gynnal digwyddiadau ymgynghori â thrigolion.

Yn ogystal â hynny, roedd CNC yn cynnal astudiaethau'n gysylltiedig â dulliau naturiol o reoli llifogydd, lle'r oedd angen mewnbwn a chyngor gan asiantaeth ymgynghori arbenigol. Roedd cyllid yn cael ei geisio am astudiaethau pellach. Roedd hi hefyd yn bwysig pwysleisio, y byddai cynllun rheoli llifogydd naturiol hyd yn oed yn gadael rhai cartrefi yn agored i risg.

O ran canfyddiadau adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 ar gyfer Sili, nodwyd nad oedd lefel y llanw wedi cael effaith niweidiol, ac nad oedd unrhyw gamau wedi'u hargymell i'w gweithredu gan CNC. Fodd bynnag, roedd CNC wedi cwblhau rhan helaeth o'r gwaith gwella lle'r oedd Afon Tregatwg yn llifo i Afon Hafren.

Yn olaf, rhoddwyd crynodeb i'r Pwyllgor o gynlluniau eraill a oedd yn digwydd ar draws rhannau eraill o Fro Morgannwg, gan gynnwys y Bont-faen.

(ii) Diweddariad ynghylch Adroddiadau Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 - Mike Clogg, Rheolwr Gweithredol Peirianeg (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth)

Rhoddodd y Rheolwr Gweithredol Peirianeg (Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) y newyddion diweddaraf am adroddiadau Ymchwiliad Llifogydd Adran 19. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan y Rheolwr Peirianeg - Yr Amgylchedd - Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth.

Dechreuodd y Rheolwr Gweithredol drwy roi amlinelliad o'r trothwyon ar gyfer adroddiadau Adran 19. Dyma nhw:

- Lle bo naw eiddo neu fwy yn dioddef llifogydd mewnol.
- Lle bo dau eiddo amhreswyl neu fwy yn dioddef llifogydd mewnol.
- Lle bo gwasanaethau critigol dan lifogydd neu fod llifogydd yn tarfu'n sylweddol arnynt.
- Lle bo llifogydd yn effeithio'n uniongyrchol ar 750m o ffordd neu reilffordd.
- Lle ceir effaith andwyol ar safleoedd amgylcheddol a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, neu nodweddion treftadol.
- Lle ceir llifogydd ar arwynebedd mwy na 0.4km² o dir Gradd 1, 2 neu 3.

Cwmpas a phwrpas adroddiad Adran 19 oedd cyflwyno adroddiad ffeithiol ar ddigwyddiad storm neilltuol a oedd wedi achosi llifogydd sylweddol. Dylai nodi'r awdurdodau rheoli risg perthnasol a chanddynt y swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol o ganlyniad i'r llifogydd. Dylai hefyd ystyried a oedd yr awdurdodau rheoli risg perthnasol wedi arfer eu swyddogaethau, neu a oeddent yn cynnig cyflawni eu swyddogaethau mewn ymateb i'r llifogydd. Yn ogystal â hynny, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gysylltu ag awdurdodau rheoli risg llifogydd eraill i gwblhau adroddiad Adran 19. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fwrriad i adroddiad Adran 19 ganfod datrysiad penodol i'r hyn a achosodd unrhyw lifogydd. Roedd angen cyhoeddi canlyniad unrhyw ymchwiliad Adran 19, a hysbysu'r awdurdodau rheoli risg perthnasol.

O ran y tywydd yn ystod mis Rhagfyr 2020, dywedwyd bod cyfanswm y glawiad rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2020 yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y rhan fwyaf o'r DU, yn enwedig ar draws rhanbarthau gorllewinol, ac roedd glawiad Rhagfyr 2020 yn sylweddol uwch na'r cyffredin. Oherwydd maint y glawiad, nid oedd ond ychydig o gapasiti yn y pridd i ddal rhagor o ddŵr, ac roedd llif cymedrig yr afonydd ym mis Ionawr i fis Rhagfyr 2020 yn eithriadol o uchel ledled Cymru. O ganlyniad i'r amodau hyn, llifogydd oedd nodwedd ailadroddus y mis.

O ganlyniad, cafwyd y digwyddiad llifogydd ar 23 Rhagfyr 2020 mewn ymateb i ddigwyddiad storm byr a chryf. Cafwyd glaw trwm rhwng 12:45 a 18:00 pan ddisgynnodd 47.8mm o law ar ddwysedd cyfartalog o 9.1mm/awr. Roedd y digwyddiad hwn wedi'i gyfyngu'n bennaf i ardaloedd trefol yn Nwyrain y Fro, gan effeithio ar Sili, Dinas Powys, Heol Rhostir Sili, Penarth gan gynnwys Heol Larnog ac Ysgol Sant Richard Gwyn.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod adroddiad Adran 19 Dinas Powys wedi cael ei gyhoeddi yn ystod mis Tachwedd 2021, a byddai adroddiad Adran 19 Rhostir

No.

Sili yn cael ei gwblhau i'w gyhoeddi cyn pen y 4 i 6 wythnos nesaf. Byddai adroddiad Adran 19 Ysgol Sant Richard Gwyn yn mynd rhagddo, a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith bod llifogydd wedi digwydd mewn gwasanaeth critigol, neu darfu'n sylweddol arno. Byddai adroddiad Adran 19 Heol Larnog, Penarth hefyd yn mynd rhagddo, a oedd yn gysylltiedig ag effaith uniongyrchol ar dros 750 metr o briffordd fabwysiedig.

Ar gyfer adroddiad Adran 19 Sili nodwyd mai'r lleoliadau yr effeithiwyd arnynt oedd yr ardal breswyl i'r gogledd o Heol y De o Swanbridge Grove i Heol Winsford; a Heol Conybeare. Aeth llifogydd dŵr wyneb i mewn i 18 eiddo ar ôl i'r storm achosi i ddŵr wyneb lifo'n gyflym o gaeau cyffiniol. Roedd hi'n debygol bod system draenio'r briffordd wedi'i llethu a bod hynny wedi gwaethygu'r llifogydd.

Y camau gweithredu arfaethedig ar gyfer Sili oedd cynnal asesiad o ddichonoldeb Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd i reoli risg llifogydd dŵr wyneb. Yn ogystal â modelu capasiti rhwydweithiau dŵr wyneb presennol y priffyrdd mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt ac ystyried gwelliannau. Byddai angen i Dŵr Cymru fodelu capasiti'r system draenio dŵr wyneb gyhoeddus bresennol, ac ystyried sut i wella'r amserlen cynnal a chadw. Byddai cais am gyllid hefyd yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru, i ddatblygu achos busnes amlinellol i hyrwyddo Amddiffyniad Lefel Eiddo, er mwyn helpu i amddiffyn eiddo unigol yn y tymor byr.

Mewn perthynas ag Adroddiad Adran 19 Dinas Powys, amlinellodd y Rheolwr Gweithredol y canlynol:

- adroddwyd bod llifogydd mewnol wedi digwydd mewn 98 eiddo, a bod llifogydd wedi digwydd mewn 22 o dai allan a 74 o erddi ar draws Dinas Powys.
- Y prif ardaloedd yr effeithiwyd arnynt oedd Brookside, Rhodfa Greenfield, Rhodfa Sant Catwg, Vale Court a Chae'r Odyn.
- Roedd hanes blaenorol o lifogydd ar Rodfa Sant Catwg, Rhodfa Greenfield, Elm Grove Place a Heol Caerdydd yn Eastbrook yn y blynyddoedd cynt, gyda'r digwyddiadau diweddaraf yn 1998, 2000, 2008 a 2012.
- Cafwyd llifogydd ar Rodfa Sant Catwg, Rhodfa Greenfield ac Elm Grove Place o Afon Tregatwg wedi i'r afon fwrw ei glannau.
- Cafwyd llifogydd yng Nghae'r Odyn a Brookside oherwydd llifogydd dŵr wyneb.

Dyma'r camau gweithredu a argymhellwyd ar gyfer Dinas Powys:

- CNC i ystyried opsiynau i leihau risg llifogydd o brif afonydd Dinas Powys.
- CNC i adolygu'r amserlen cynnal a chadw ar gyfer Eastbrook ac Afon Tregatwg.
- Dŵr Cymru i gadarnhau cyflwr systemau draenio dŵr wyneb a dŵr budr ar Gae'r Odyn.
- Y Cyngor i ymchwilio i systemau dŵr wyneb priffyrdd yn ardal Pen-y-Turnpike, Heol y Felin a Rhodfa Greenfield, ac ar Heol Millbrook.
- Cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolygon a datblygu achos busnes dros Amddiffyniad Lefel Eiddo ar draws y gymuned mewn

No.

cydweithrediad â CNC. Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau fyddai tua £2.9m.

- Cydweithio â CNC a Dŵr Cymru ar y cyd â Grŵp Gweithredu Llifogydd Dinas Powys i ystyried y camau a nodwyd.

A chyda hynny, daeth diweddariad y Rheolwr Gweithredol i ben.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Miss Katie Parsons-Young, y siaradwr cyhoeddus cyntaf, gan ddweud y byddai ganddi 3 munud o amser i siarad.

Dechreuodd Miss Parsons-Young drwy ddweud ei bod yn byw yn Llandochoau, felly roedd y Rheolwr Gweithredol yn trafod ei thŷ hi. Ychwanegodd Miss Parsons-Young fod llifogydd hanesyddol yno drwy'r amser, a bod cwlferd o dan yr ardd flaen, a fyddai'n gorlifo'n rheolaidd. Nid oedd rhwystr yn y cwlferd, felly roedd yn anaddas i'r diben. O 2013 ymlaen, dywedodd ei bod wedi derbyn llythyrau ac wedi bod mewn cyfarfodydd â'r Adran Briffyrdd, Cynghorwyr ac ati, ond nad oedd unrhyw gamau wedi'u cymryd dros y naw mlynedd diwethaf. Gwaethygydd y llifogydd pan roddodd Dŵr Cymru a'r Cyngor ganiatâd ar gyfer datblygiad tai newydd, a ychwanegodd at y dŵr wyneb a oedd yn draenio i'r cwlferd o dan ei thŷ. Dywedodd Miss Parsons-Young ei bod wedi gwneud cais i gael ei chynnwys yn yr adroddiad Adran 19 ond ei bod fwy na thebyg wedi'i hepgor gan nad oedd o drwch blewyn yn bodloni'r meini prawf neu'r trothwy. Mynegodd bryder ei bod hi'n ymddangos fel pe bai trigolion Llandochoau yn cael eu hanghofio, a gofynnodd a allai rywun wneud rhywbeth i helpu.

Gan nad oedd unrhyw bwyntiau o eglurhad, gofynnodd y Cadeirydd i Mr Max Wallis, y siaradwr nesaf o blith y cyhoedd i siarad gerbron y Pwyllgor. Dywedwyd wrth Mr Wallis y byddai ganddo 3 munud.

Dywedodd Mr Wallis mai'r pwynt cyntaf oedd nad oedd gwaith dŵr Rhostir Cog yn gallu cymryd yr holl ddŵr llifogydd a oedd yn mynd i mewn i'r garthffos, a bod hynny'n rhan o'r broblem. Dywedodd Mr Wallis ei fod wedi derbyn ffigurau gan Dŵr Cymru a ddangosai y gallai'r gwaith trin dŵr ymdopi â 1800 litr o danlifant dŵr fesul eiliad. Roedd hyn yn ychwanegol at y 2400 litr o ddŵr heb ei drin. Dangosai data pellach gan Dŵr Cymru fod y gwaith wedi cyrraedd yr uchafswm o ran llifant, ac na allai dderbyn rhagor. Gan hynny, pan gyrhaeddwyd y capasiti uchafswm, roedd Dŵr Cymru wedi diffodd y pypiau a gollwng y dŵr i Ddociau'r Barri a chysylltiadau i'r afon.

Dywedodd Mr Wallis wedyn fod tai ym Mhenarth yn creu llawer o ddŵr budr gan eu bod yn hen, heb unrhyw systemau draenio dŵr wyneb. Ar 23 Rhagfyr 2020, y drafferth oedd nad oedd Dŵr Cymru'n gallu pwmpio carthion heb eu trin, felly gorlifodd y carthion i'r rhwydwaith ffyrdd. Ychwanegodd mai'r hyn yr oedd ei angen oedd system draenio trefol cynaliadwy (SUDS).

Trydydd pwynt Mr Wallis oedd bod hanner y strydoedd yn Ninas Powys yn cael eu draenio i'r garthffos. O ran yr hanner arall, fel y nodwyd eisoes, ni allai'r dŵr fynd i mewn i'r afon gan fod yr afon yn rhy uchel. Arhosodd y sefyllfa hon yr un peth. Roedd Ysbyty Llandochoau yn draenio i Eastbrook, yr oedd adeiladu maes parcio

No.

newydd wedi effeithio arni, felly roedd o'r farn y dylid gwneud rhywbeth i gadw dŵr yn ôl.

Mewn ymateb i bwynt o eglurhad ynghylch a allai rhwystrau ar ddraeniau yn Ninas Powys, dywedodd Mr Wallis nad cynnal a chadw'r draeniau oedd y broblem. Yn hytrach y broblem oedd nad oedd y carthffosydd yn gallu derbyn maint y dŵr am 5pm ar ddiwedd y storm. Diflannodd y cyfan yn sydyn gan fod y draeniau wedi dechrau gweithio.

Y trydydd siaradwr o blith y cyhoedd oedd Cynghorydd Cymuned Dinas Powys, Chris Franks, a dywedwyd wrtho fod ganddo 3 munud i siarad.

Dywedodd y Cynghorydd Franks ei fod o'r farn nad oedd Cyngor Bro Morgannwg yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r trigolion. Dywedodd nad oedd y Cyngor i'w weld yn unman yn ystod yr argyfwng llifogydd. Ystyriwyd mai ychydig iawn a oedd wedi gwella ers y digwyddiad. Gofynnodd y Cynghorydd Franks am gael neilltuo mwy o adnoddau fel bo modd i swyddogion ymateb yn well i unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Ni allai weld tystiolaeth o bryder ynghylch llesiant pobl.

Canolbwyntio ar lifogydd mewn tai oedd yr dull cywir o weithredu, ond tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod y brif ffordd, yr A4055, wedi bod dan ddŵr am gyfnod sylweddol a hyd at ddyfnder sylweddol. Roedd hyn yn ynysu cannoedd lawer o aelwydydd, felly anogodd y Pwyllgor i argymhell y dylid cynyddu adnoddau ariannol a lefelau staff ar unwaith fel bo modd ymateb yn ddigonol i unrhyw argyfyngau yn y dyfodol. Yn ogystal â hynny, ac fel isafswm, gofynnodd y Cynghorydd Franks am gael gweithredu argymhellion Adroddiad Adran 19 ar gyfer Dinas Powys ar frys.

Gofynnodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Brooks, a oedd y Swyddogion a chynrychiolwyr CNC am ymateb i'r prif bwyntiau a godwyd gan y siaradwyr o blith y cyhoedd.

O ran y llifogydd yn Llandochau ac ymateb y Cyngor, dywedodd y Rheolwr Peirianeg ei fod wedi ymchwilio i bob achos o lifogydd ar draws y Fro. Cyfeiriodd at anawsterau a gafwyd gan fod ceuffosydd preifat yn rhedeg o dan dir preifat. Roedd hyn wedi'i ystyried yn flaenorol, ac nid oedd dim wedi newid erbyn hyn o ran ymarferoldeb datrysiadau posibl. Roedd hi'n dal yn bwysig adrodd problemau wrth y Cyngor fel bo modd creu darlun ehangach o fynychder llifogydd. O ran dŵr wyneb o ddatblygiadau tai newydd, roedd cynllun a strategaeth ddraenio wedi'u sefydlu a oedd bellach wedi'u mabwysiadu gan Dŵr Cymru. Roedd y Cyngor yn dal i ymchwilio i'r holl geuffosydd yn yr ardal yn dilyn y llifogydd a gafwyd ym mis Rhagfyr 2020.

O ran y maes parcio newydd yn Ysbyty Llandochau, dywedwyd bod nodweddion arafu wedi'u hymgorffori yn rhai elfennau ohono, neu ymhellach i lawr y cwrs dŵr. Ar ben hynny, roedd yn rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd â goblygiadau o ran draenio fynd drwy broses gymeradwyo ar wahân ochr yn ochr â'r broses Gynllunio. Byddai hyn yn atal unrhyw ddatblygiad rhag cael effaith niweidiol ymhellach i lawr yr afon.

No.

Wrth ymateb i bwyntiau Mr Wallis ynghylch gwaith dŵr Rhostir Cog, dywedodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd Dŵr Cymru yn bresennol i ymateb, ond bod y corff wedi nodi bod y cyfleuster yn gweithio'n gywir, yn rhan o'r ymchwiliad Adran 19. Yn ogystal â hynny, roedd Dŵr Cymru hefyd wedi nodi na fu unrhyw ollyngiadau i Nant Sili.

Mewn perthynas â'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Franks, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ei fod o'r farn fod y Cyngor wedi rhoi cryn ystyriaeth i'r trigolion, gan gyfeirio at y gwaith sy'n digwydd ar y cyd rhwng y Cyngor, Dŵr Cymru a'r trigolion. Ychwanegodd ei bod yn bwysig cofio bod llifogydd yn fater cymhleth iawn a bod angen modelu'n ofalus i sicrhau bod y camau cywir yn cael eu cymryd i ymdrin â'r sefyllfa. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod llawer o waith yn cael ei wneud yn Ninas Powys o safbwynt glanhau priffyrdd a thrwsio draeniau, a bod Dŵr Cymru hefyd yn gwneud gwaith i fodelu'r rhwydwaith dŵr. Dros y misoedd ers y llifogydd, cadwyd cyswllt agos hefyd â'r Grŵp Gweithredu Llifogydd. Roedd hi'n bwysig cydnabod nad oedd y Cyngor yn wasanaeth brys, felly roedd ganddo gerbydau'n sownd mewn traffig mewn sawl lleoliad ar dras y Fro. Roedd wedi cynnig yr ymateb gorau posib o fewn yr adnoddau a oedd ar gael.

Wrth ofyn a oedd ganddo sylw, esboniodd Tim Marshall o CNC ei bod yn ffodus bod gwasanaethau'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol wedi cael eu caffael er mwyn helpu'r trigolion lleol i ddod ynghyd ac ymfyddino pan fyddai llifogydd yn taro. Nid dyma oedd yr holl ateb, ond roedd hi'n bwysig llongyfarch y trigolion am y ffyrdd yr oeddent wedi cydweithio.

Gofynnwyd am gyfraniad gan Cynghorydd S. Griffiths - aelod ward Dinas Powys, ond nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor. O ran yr eiddo yn Ninas Powys lle byddai'r risg o lifogydd yn parhau hyd yn oed pe bai cynlluniau llwyddiannus yn cael eu rhoi ar waith, gofynnodd y Cynghorydd Griffiths pa mor gywir oedd yr amcanestyniad o ddigwyddiad llifogydd 1 mewn 30, ac a oedd hynny'n golygu y gallai mwy o dai fod o dan lifogydd? Gofynnodd hefyd a fyddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i symud cynlluniau ymlaen ynghynt, a beth ellid ei wneud i gyflymu'r broses honno. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Tim Marshall fod y ffigurau'n dangos y byddai risg yn parhau i 61 o dai, hyd yn oed o weithredu cynllun naturiol llwyddiannus iawn er mwyn rheoli llifogydd. Roedd y ffigurau hynny'n seiliedig ar amcangyfrifon o debygolrwydd llifogydd, ond yn deillio o'r cyfnod cyn digwyddiadau mis Rhagfyr 2020. Ers hynny, roedd ymgynghorwyr a oedd yn gweithio gyda Dŵr Cymru wedi creu amcangyfrif newydd o fynychder llifogydd ar sail cyfnodau dychwelyd llifogydd. Erbyn hyn, y dybiaeth oedd y byddai'r glawiadau dwys a fyddai'n arwain at lifogydd yn debygol o fod yn fwy mynych na'r hyn a feddylwyd yn wreiddiol. Roedd y newid yn yr hinsawdd hefyd yn debygol o effeithio ar hyn. Roedd CNC yn ymwybodol o'r prosesau'n gysylltiedig â chymeradwyo cynlluniau lliniaru llifogydd, a dyma pam bod CNC yn gwneud ei orau i lunio achos busnes er mwyn gosod medryddion dŵr. Byddai hyn o gymorth i gael dealltwriaeth well o ddalgylch dŵr ac yn galluogi CNC i gyflwyno gwelliannau. Yn ogystal â hynny, roedd y Cyngor yn ceisio bwrw ymlaen ag amddiffyniad lefel eiddo.

Holodd y Cyngorydd A. Robertson beth oedd pwrpas yr adroddiad Adran 19 hwn, gan gyfeirio at yr angen i ganfod datrysiadau yr oedd ar bobl eu heisiau. Gofynnodd pryd y byddai datrysiadau'n destun ystyriaeth wirioneddol. Gwnaeth y Cyngorydd Robertson sylw hefyd ar y materion draenio priffyrdd yn ardal Heol Millbrook, Dinas Powys, lle canfuwyd bod y systemau draenio i raddau helaeth iawn wedi'u difrodi'n sylweddol wedi i waith gan gwmnïau cyfleustodau ymwithio iddynt. Yn olaf, holodd a ofynnwyd i feteorolegwr pam y bu'r glawiad mor drwm.

Mewn ymateb i'r Cyngorydd Robertson, dywedodd y Rheolwr Gweithredol nad pwrpas Adran 19 oedd amlinellu datrysiadau, ond lle'r oedd rhai enillion cyflym posibl, nid oedd unrhyw reswm pam na ellid nodi hynny wrth gwblhau'r adroddiad. Ychwanegodd fod gwaith yn digwydd i fodelu ac ymchwilio i ddatrysiadau posibl, ond bod asesu'r holl faterion a rhoi achos busnes at ei gilydd i ddenu'r cyllid angenrheidiol yn cymryd amser.

O ran Heol Millbrook, cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod gwaith adfer wedi'i gwblhau. Roedd llwybr y pibellau nwy drwy system draenio dŵr wyneb y briffordd yn hysbys, felly roedd hynny wedi'i ddatrys ynghynt yn y flwyddyn galendr hon.

Mewn ymateb i'r cwestiwn am fewnbwn meteorolegydd a stormydd lleol, dywedodd Tim Marshall fod cofnod gwyddonol bod stormydd lleol iawn a mwy dwys yn gysylltiedig ag effeithiau'r newid hinsawdd.

Gofynnodd y Cyngorydd V. Driscoll gyfres o gwestiynau. Y cwestiwn cyntaf oedd ganddo oedd pwy oedd yn talu i osod mesurau lliniaru llifogydd ar eiddo. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod arian grant wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru i dalu'r gost. Mae'n bosibl y byddai peth o'r gwaith yn parhau i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd, a gallai cyllid cyfalaf y Cyngor dalu am hynny.

Holodd y Cyngorydd Driscoll ynghylch y costau cysylltiedig ô £2.9m am amddiffyniad lefel eiddo, a sut y daethpwyd i'r ffigur hwnnw. Eglurodd y Rheolwr Gweithredol fod a wnelo hyn ag unrhyw ddigwyddiad storm, ac mai ond amcangyfrif oedd hynny o'r gost pe gwneid defnydd llawn o'r mesurau gwrthsefyll llifogydd gan y trigolion. Yn nhermau amcangyfrifon lefel uchel o gostau, ychwanegodd y Rheolwr Peirianeg fod y £2.9m yn seiliedig ar uchafswm yr eiddo. Nid oedd hyn yr un peth â chael un cynllun mawr i warchod cymuned gyfan rhag y digwyddiad 100 mlynedd. Roedd yr amddiffyniad safonol yn seiliedig ar bob achos unigol, a byddai'n cynnig mesurau amddiffyn fel rhwystrau neu waliau. Pan oedd mesurau diogelu blaenorol wedi'u darparu ar lefel eiddo, roedd y rhain fel arfer yn cynnwys pypiau y tu mewn i'r eiddo gan ragdybio y byddai rhywfaint o ddŵr yn dal i fynd i mewn. Roedd hi'n anodd iawn sicrhau na fyddai unrhyw ddŵr yn mynd i mewn i unrhyw dŷ.

Cwestiwn olaf y Cyngorydd Driscoll oedd, pe bai'r Cyngor yn llwyddo i ennill y grant gwerth £2.9m, a fyddai hynny'n effeithio ar ei siawns i gyflawni unrhyw waith arall. Ar ôl cael gwahoddiad i ymateb, dywedodd Tim England na allai ateb hynny'n bendant, ond pan wnaed y cyhoeddiad ynghylch y cyllid, roedd y cyllid o natur frys ac yn gysylltiedig yn bennaf â digwyddiadau llifogydd a storm Dennis.

No.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Morgan at yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan ddigwyddiadau llifogydd eraill diweddar, nad oeddent yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adroddiad Adran 19. Er enghraifft, gallai 120 eiddo gael eu torri i ffwrdd oddi wrth y Gwasanaethau Brys pe bai llifogydd yn digwydd yn Llanbedr-y-Fro. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn Awdurdod Llifogydd Lleol, ac y byddai'n gwneud mwy nag ymchwilio i ddigwyddiadau Adran 19 yn unig. Byddai ymchwiliad yn cael ei gynnal i faterion, hyd yn oed pe baent yn sbarduno adroddiad Adran 19. Ychwanegodd y Rheolwr Peirianeg y gallai'r Cyngor hefyd wneud ceisiadau i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf ar gyfer cynlluniau eraill nad oeddent wedi'u cysylltu'n benodol ag adroddiad Adran 19. Fodd bynnag, ni ellid hyrwyddo cynllun ar sail llifogydd ar briffordd yn unig, gan fod hynny'n groes i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn ymholiad ynghylch dosbarthu bagiau tywod, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn annog pobl i sicrhau bod ganddynt stoc briodol o fagiau tywod. Roedd gan y Cyngor bolisi newydd yn gysylltiedig â hyn a fyddai'n cael ei rannu ymhlith yr Aelodau.

Dywedodd y Cynghorydd G. John fod gosod llifddorau wedi bod o fudd i drigolion Llanilltud Fawr. Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol fod llifddorau ymhlith y mesurau a oedd yn cael eu cynnig drwy'r Amddiffyniad Lefel Eiddo. Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn cynnal arolwg er mwyn llunio achos busnes.

Wrth gloi'r ddadl, diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o CNC,

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI cynnwys y cyflwyniad sy'n ymwneud â gweithredu cynlluniau lliniaru llifogydd ledled Bro Morgannwg.

(2) NODI cynnwys y cyflwyniad sy'n ymwneud ag Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Ar ôl ystyried cynnwys y cyflwyniadau a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

859 ARGYFWNG NATUR – CYFLAWNI CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNGOR (CYF) -

Y Pennaeth Adfywio a Chynllunio yn cyflwyno'r cyfeiriad o'r Cabinet ar 20 Rhagfyr, 2021.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer ymdrin â'r Argyfwng Natur a ddatganwyd. Yn rhan o'r trefniadau llywodraethu hyn roedd tîm Gweithredu Natur Leol wedi cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r camau angenrheidiol i ymdrin â'r argyfwng a chyfrannu at y Cynllun Her Newid Hinsawdd, ac roedd cynllun prosiect cychwynol wedi cael ei ddatblygu.

No.

Roedd y tîm o uwch swyddogion wedi cyfarfod ac wedi ystyried yr heriau a'r camau cysylltiedig y byddai angen eu cymryd, a byddent yn adrodd yn ôl wrth Fwrdd Project Sero, dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Byddai'r Blaengynllun Bioamrywiaeth y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Medi 2019, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur cysylltiedig yn sail i ymateb y Cyngor i'r argyfwng, a byddai'n cefnogi ac yn gwella gwaith y Bartneriaeth Natur Leol wrth weithio gyda'r gymuned leol.

Wedi ystyried yr adroddiad, roedd

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

860 STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER CYFRANOGIAD Y CYHOEDD (CYF) -

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd gan y Cabinet ar 24 Ionawr, 2022.

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, ar y cyd â'r Rheolwr Cyfathrebu, yr adroddiad a oedd yn amlinellu bod Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwmo i gynnwys trigolion a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth wneud penderfyniadau.

Mae 'Gweithio gyda'n cymunedau, ac er eu budd' yn un o'r pedwar amcan a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2020-25. Roedd y Cyngor cyn hynny wedi cyhoeddi Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Mae Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn canolbwyntio ar hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol. Mae'r Ddeddf yn sefydlu dyletswydd i annog pobl leol i gymryd rhan mewn penderfyniadau a gofyniad i awdurdodau lleol gyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, cynnal ymgynghoriad ar y strategaeth honno a'i hadolygu'n rheolaidd.

Nodir yn y Ddeddf fod yn rhaid i'r strategaeth ymdrin â'r canlynol:

- Hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor
- Hybu ymwybyddiaeth ynghylch sut i fod yn Gynghorydd
- Hwyluso mynediad at benderfyniadau a wnaed, neu y bwriedir eu gwneud
- Hyrwyddo a hwyluso prosesau i bobl leol gyflwyno sylwadau i'r Cyngor ynghylch penderfyniad

Er mwyn dangos yn glir i ddinasyddion Bro Morgannwg sut roedd y sefydliad yn gweithio i wella cyfranogiad cyhoeddus, ac i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion y Ddeddf, roedd drafft Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2022-25 wedi

No.

cael ei lunio. Roedd y ddogfen honno wedi'i hatodi yn Atodiad A yr adroddiad, a Chynllun Gweithredu cysylltiedig wedi'i atodi yn Atodiad B.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu ystyried drafft y strategaeth, a dyma'r sylwadau a gafwyd:

- Roedd angen rhoi systemau amgen ar waith, i ymgysylltu ac ymgynghori â'r dinasyddion hynny nad oedd ganddynt fynediad at gyfrifiadur neu ddulliau electronig.
- Dylai'r Cyngor gyhoeddi mwy o ddatganiadau i'r wasg drwy'r papurau newydd lleol.
- Roedd anawsterau'n codi wrth ddenu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymateb iddynt, felly tybed a oedd gan Gynghorwyr y Fro ran i'w chwarae, a gallai Cyngorau Tref a Chymuned helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith y trigolion.

Cytunwyd i anfon sylwadau'r Pwyllgor at y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes.

ARGYMHELLWYD – Anfon sylwadau'r Pwyllgor Craffu at y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes fel rhan o'r broses ymgynghori.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.